Y PASG 2

ACTAU 4:32-35; SALM 133;
1 IOAN 1:1—2:2; IOAN 20:19-31

● **Gweddi agoriadol**

Yn enw'r Tad,
a garodd y bydysawd
  i fodolaeth,
ymunwn mewn addoliad.

Yn enw'r Mab,
a fu farw i ni brofi
  bywyd tragwyddol,
ymunwn mewn addoliad.

Yn enw'r Ysbryd,
y mae ei fflam yn llosgi'n ddisglair
  yn ein calonnau,
ymunwn mewn addoliad.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân,
Drindod fendigaid, dri yn un,
ti yn unig a addolwn.

● **Moliant**

Mae gennym neges Iesu
i'w chyhoeddi i'r byd.

Gair Duw,
gwirionedd tragwyddol

wedi'i gyfyngu mewn
cnawd dynol bregus.

Mab Duw,
a arllwysodd ei gariad
er mwyn y byd
ar y groes.

Goleuni'r bywyd,
yr un y profwn drwyddo
ras Duw
yn ein rhyddhau.

Mae gennym neges Iesu
i'w chyhoeddi i'r byd.

● **Cyffes**

Camgymeriad, Arglwydd,
fyddai i ni ddweud
nad oes amheuon gennym,
achos mae'r byd yn gwneud ei orau
i wadu popeth sy'n werthfawr i ni,
ac yn daer ei gri.
Mae rhai dyddiau pan,
fel Thomas, dy gyfaill annwyl,
mae angen ymestyn
a chyffwrdd y llaw
sydd wedi ein harwain yr holl flynyddoedd hyn,
a gweld y lle
ble gwnaeth y waywffon a'r hoelion
adael eu marciau.

Maddau ein hamheuon
a phan gawn ein temtio,
bydd yn hyder i ni,
mor agos fel y gallwn
fel Thomas, ddatgan yn llawen,
'Fy Arglwydd a'm Duw!'

● **Diolch**
Y cariad a ddangosi
yw ein hysbrydoliaeth;
y goleuni a roddi
yw ein gweld
ar y llwybr a gerddwn
gyda thi heddiw.

Ein tystiolaeth i'r byd
yw bod o un meddwl
mewn calon ac enaid,
yn fendith
i gyfaill a dieithryn,
yn dwyn dy ras
i'r rhai mewn angen
a newyddion da
i'r rhai sydd ar goll neu'n chwilio.

Am gariad, goleuni
a holl fendithion
y bywyd hwn,
cyflwynwn ein diolch dwfn.